



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2016 Rhif 1156 (Cy. 278)

2016 No. 1156 (W. 278)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Gorchymyn Rhondda Cynon Taf
(Cymunedau) 2016**

**The Rhondda Cynon Taf
(Communities) Order 2016**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhoi effaith i gynigion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn"), a hynny heb eu haddasu. Ym mis Gorffennaf 2015, cyflwynodd y Comisiwn adroddiad ar adolygiad o ffiniau cymunedol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd gan Gyngor Bwrdeistrefol Sirol Rhondda Cynon Taf. Yn yr adroddiad, argymhellwyd newidiadau i nifer o ffiniau presennol.

This Order, made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972, gives effect without modification to proposals of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales ("the Commission"). The Commission reported in July 2015 on a review conducted by Rhondda Cynon Taf County Borough Council of the community boundaries for the County Borough of Rhondda Cynon Taf. The report recommended changes to a number of existing boundaries.

Effaith y Gorchymyn hwn yw gwneud newidiadau i nifer o ardaloedd cymunedol a rhai newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol cymunedol. Mae newidiadau'n cael eu gwneud i ffiniau Aberdâr, Aberaman, Cwmbach, Llantrisant, Llanilltud Faerdref, Aberpennar a Phontypridd. Mae cymunedau presennol Aberaman, Aberdâr ac Aberpennar wedi eu diddymu, ac mae cymunedau newydd Gogledd Aberaman, De Aberaman, Dwyrain Aberdâr, Gorllewin Aberdâr, Dwyrain Aberpennar a Gorllewin Aberpennar wedi eu creu.

The effect of this Order is that there are changes to a number of community areas and some consequential changes in community electoral arrangements. Changes are made to the boundaries of Aberdare, Aberaman, Cwmbach, Llantrisant, Llantwit Fardre, Mountain Ash and Pontypridd. The existing communities of Aberaman, Aberdare and Mountain Ash are abolished, and the new communities of Aberaman North, Aberaman South, Aberdare East, Aberdare West, Mountain Ash East and Mountain Ash West are created.

Mae printiau o'r mapiau ffiniau A i N y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi eu hadneuo a gellir edrych arnynt yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Rhondda Cynon Taf, ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol).

Prints of the boundary maps A to N to which this Order relates are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of Rhondda Cynon Taf County Borough Council, and at the offices of the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ (Local Government Democracy Division).

2016 Rhif 1156 (Cy. 278)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Gorchymyn Rhondda Cynon Taf
(Cymunedau) 2016**

Gwnaed 25 Tachwedd 2016
Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru(1) wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(2), adroddiad dyddiedig 9 Gorffennaf 2015 ar ei adolygiad o drefniadau cymunedol yn Sir Rhondda Cynon Taf, a'i gynigion ar gyfer eu newid.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i roi effaith i gynigion y Comisiwn heb eu haddasu.

2016 No. 1156 (W. 278)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**The Rhondda Cynon Taf
(Communities) Order 2016**

Made 25 November 2016
Coming into force in accordance with article 1(2) and (3)

The Local Democracy and Boundary Commission for Wales(1) has, in accordance with sections 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(2), submitted to the Welsh Ministers a report dated 9 July 2015 on its review of, and proposals for change in, the community arrangements in the County of Rhondda Cynon Taf.

The Welsh Ministers have agreed to give effect to the Commission's proposals without modification.

(1) Enw blaenorol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn") oedd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) ("Ddeddf 1972") ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) ("Deddf 2013") ac Atodlen 2 iddi. O dan Ddeddf 2013, parhaodd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i fodoli ond fe'i hailenwyd yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2). Gweler troednodyn (2) isod ar gyfer darpariaethau arbed a wnaed yn Neddf 2013 sy'n gymwys i Ran 4 o Ddeddf 1972.

(2) 1972 p. 70. Diddymwyd adrannau 53 i 61 o Ddeddf 1972 gan adran 73(2) o Ddeddf 2013 ac Atodlen 2 iddi ond, yn unol ag adran 74(1) a (2) o Ddeddf 2013, maent yn parhau mewn effaith at ddiben cwblhau adolygiadau a oedd yn cael eu cynnal pan ddaeth Rhan 3 o Ddeddf 2013 i rym ar 30 Medi 2013 ac at ddiben y cynigion a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru cyn yr adeg honno. Diwygiwyd adran 74(2) o Ddeddf 2013 gan adran 43 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 (dccc 6) er mwyn caniatáu i adolygiadau a gwblhawyd cyn 30 Medi 2013 gael eu gweithredu o dan Ddeddf 1972.

(1) The Local Democracy and Boundary Commission for Wales ("the Commission") was previously called the Local Government Boundary Commission for Wales. The Local Government Boundary Commission for Wales was established by section 53 of and Schedule 8 to the Local Government Act 1972 (c. 70) ("the 1972 Act"). Section 53 and Schedule 8 were repealed by section 73(2) of and Schedule 2 to the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (anaw 4) ("the 2013 Act"). Under the 2013 Act, the Local Government Boundary Commission for Wales continued in existence but was renamed the Local Democracy and Boundary Commission for Wales (see section 2). See footnote (2) below for savings provisions made in the 2013 Act that apply to Part 4 of the 1972 Act.

(2) 1972 c. 70. Sections 53 to 61 of the 1972 Act have been repealed by section 73(2) of and Schedule 2 to the 2013 Act but, pursuant to section 74(1) and (2) of the 2013 Act, continue in effect for the purpose of completing reviews which were being conducted when Part 3 of the 2013 Act came into force on 30 September 2013 and for the purpose of proposals submitted to the Welsh Ministers before that time. Section 74(2) of the 2013 Act was amended by section 43 of the Local Government (Wales) Act 2015 (anaw 6) to allow reviews completed before 30 September 2013 to be implemented under the 1972 Act.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hyn gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru(1).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd wedi eu breinio bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(2).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau) 2016.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2016.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2017(3).

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “newydd” (“*new*”) mewn perthynas ag ardal llywodraeth leol, yw'r ardal honno fel y'i sefydlir gan y Gorchymyn hwn.

ystyr “presennol” (“*existing*”) mewn perthynas ag ardal llywodraeth leol, yw'r ardal fel y mae'n bodoli yn union cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2017;

ystyr “y Rheoliadau” (“*the Regulations*”) yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(4);

More than six weeks have elapsed since these proposals were submitted to the Welsh Ministers(1).

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972 and now vested in them so far as exercisable in relation to Wales(2).

Title and commencement

1.—(1) The title of this Order is the Rhondda Cynon Taf (Communities) Order 2016.

(2) For any purpose set out in regulation 4(1) of the Regulations, this Order comes into force on 1 December 2016.

(3) For all other purposes this Order comes into force on the ordinary day of election of councillors in 2017(3).

Interpretation

2. In this Order—

“existing” (“*presennol*”) in relation to a local government area, means that area as it exists immediately before the ordinary day of election of councillors in 2017;

“new” (“*newydd*”) in relation to a local government area, means that area as established by this Order;

“the Regulations” (“*y Rheoliadau*”) means the Local Government Area Changes Regulations 1976(4);

(1) Mae adran 58(2) o Ddeddf 1972 yn darparu na chaniateir gwneud gorchymyn sy'n rhoi effaith i unrhyw gynigion a wneir i Weinidogion Cymru gan y Comisiwn tan fod chwe wythnos wedi mynd heibio ers y diwrnod y cyflwynwyd y cynigion hynny i Weinidogion Cymru.

(2) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi.

(3) Diwygiwyd Gorchymyn Etholiadau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2014 (O.S. 2014/3033 (Cy. 302)) gan Ddeddf 1972 drwy symud y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn ôl un flwyddyn o 2016 i 2017.

(4) O.S. 1976/246.

(1) Section 58(2) of the 1972 Act provides that an order giving effect to any proposals made to the Welsh Ministers by the Commission must not be made until the expiry of six weeks from the day on which those proposals were submitted to the Welsh Ministers.

(2) The powers of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and are now vested in the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30(1) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(3) The Local Authority Elections (Wales) Order 2014 (S.I. 2014/3033 (W. 302)) amended the 1972 Act by moving the ordinary day of election of councillors by one year from 2016 to 2017.

(4) S.I. 1976/246.

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn gyfeiriad at un o'r 14 o fapiau a farciwyd "Map Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau) 2016" a adnewwyd yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau ac a labelwyd yn "A" i "N", ac mae cyfeiriad at fap â llythren yn gyfeiriad at fap sy'n dwyn y llythren honno; a

pan ddangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

Newidiadau i ardaloedd llywodraeth leol

3. Mae newidiadau yn cael eu gwneud yn ardal llywodraeth leol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn unol â'r darpariaethau a ganlyn yn y Gorchymyn hwn.

Tyn-y-Nant a Llanilltud Faerdref – newid i ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i adrannau etholiadol

4. Mae'r rhan o gymuned Llanilltud Faerdref a ddangosir â chroeslinellau ar Fap A (ward Llanilltud Faerdref)—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llantrisant;
- (b) yn ffurfio rhan o ward Tyn-y-Nant yng nghymuned Llantrisant; ac
- (c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Tyn-y-Nant.

Llanilltud Faerdref a Thyn-y-Nant – newid i ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i adrannau etholiadol

5. Mae'r rhan o gymuned Llantrisant a ddangosir â chroeslinellau ar Fap B (ward Tyn-y-Nant)—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llanilltud Faerdref;
- (b) yn ffurfio rhan o ward Llanilltud Faerdref yng nghymuned Llanilltud Faerdref; ac
- (c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Llanilltud Faerdref.

Pentre'r Eglwys a Llanilltud Faerdref - newidiadau i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i adrannau etholiadau

6. Mae'r rhannau o gymuned Llanilltud Faerdref a ddangosir â chroeslinellau ar Fap C, Map D a Map E (ward Llanilltud Faerdref)—

- (a) yn ffurfio rhan o ward Pentre'r Eglwys yng nghymuned Llanilltud Faerdref; a

any reference to a map means one of the 14 maps marked "Map of the Rhondda Cynon Taf (Communities) Order 2016" deposited in accordance with regulation 5 of the Regulations and labelled "A" to "N", and a reference to a lettered map is a reference to the map that bears that letter; and

where a boundary is shown on a map as running along a road, railway line, footway, watercourse or similar geographical feature, it is to be treated as running along the centre line of the feature.

Local government area changes

3. Changes are made in the local government area of the County Borough of Rhondda Cynon Taf in accordance with the following provisions of this Order.

Tyn-y-Nant and Llantwit Fardre – change to community areas and consequential change to electoral divisions

4. The part of the community of Llantwit Fardre shown hatched on Map A (Llantwit Fardre ward)—

- (a) is transferred to the community of Llantrisant;
- (b) forms part of the Tyn-y-Nant ward of the community of Llantrisant; and
- (c) forms part of the electoral division of Tyn-y-Nant.

Llantwit Fardre and Tyn-y-Nant – change to community areas and consequential change to electoral divisions

5. The part of the community of Llantrisant shown hatched on Map B (Tyn-y-Nant ward)—

- (a) is transferred to the community of Llantwit Fardre;
- (b) forms part of the Llantwit Fardre ward of the community of Llantwit Fardre; and
- (c) forms part of the electoral division of Llantwit Fardre.

Church Village and Llantwit Fardre - changes to community areas and consequential changes to electoral divisions

6. The parts of the community of Llantwit Fardre shown hatched on Map C, Map D and Map E (Llantwit Fardre ward)—

- (a) form part of the Church Village ward of the community of Llantwit Fardre; and

- (b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pentre'r Eglwys.

- (b) form part of the electoral division of Church Village.

Tref Llantrisant a Thonysguboriau – newid i ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i adrannau etholiadol

7. Mae'r rhan o gymuned Llantrisant a ddangosir â chroeslinellau ar Fap F (ward Tonysguboriau)—

- (a) yn ffurfio rhan o ward Tref Llantrisant yng nghymuned Llantrisant; a
(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Tref Llantrisant.

Llantrisant Town and Talbot Green – change to community areas and consequential change to electoral divisions

7. The part of the community of Llantrisant shown hatched on Map F (Talbot Green ward)—

- (a) forms part of the Llantrisant Town ward of the community of Llantrisant; and
(b) forms part of the electoral division of Llantrisant Town.

Llanilltud Faerdref, Tyn-y-Nant a Thref Llantrisant – newidiadau i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i adrannau etholiadol

8. Mae'r rhan o gymuned Llantrisant a ddangosir â chroeslinellau ar Fap G (ward Tyn-y-Nant a ward Tref Llantrisant)—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llanilltud Faerdref;
(b) yn ffurfio rhan o ward Llanilltud Faerdref yng nghymuned Llanilltud Faerdref; ac
(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Llanilltud Faerdref.

Llantwit Fardre, Tyn-y-Nant and Llantrisant Town – changes to community areas and consequential changes to electoral divisions

8. The part of the community of Llantrisant shown hatched on Map G (Tyn-y-Nant ward and Llantrisant Town ward)—

- (a) is transferred to the community of Llantwit Fardre;
(b) forms part of the Llantwit Fardre ward of the community of Llantwit Fardre; and
(c) forms part of the electoral division of Llantwit Fardre.

Beddau a Thref Llantrisant – newid i ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i adrannau etholiadol

9. Mae'r rhan o gymuned Llantrisant a ddangosir â chroeslinellau ar Fap H (ward Tref Llantrisant)—

- (a) wedi ei throsglwyddo i ffurfio rhan o ward Beddau yng nghymuned Llantrisant; a
(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Beddau.

Beddau and Llantrisant Town – change to community areas and consequential change to electoral divisions

9. The part of the community of Llantrisant shown hatched on Map H (Llantrisant Town ward)—

- (a) is transferred to form part of the Beddau ward of the community of Llantrisant; and
(b) forms part of the electoral division of Beddau.

Beddau a'r Graig – newid i ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i ardaloedd etholiadol

10. Mae'r rhan o gymuned Llantrisant a ddangosir â chroeslinellau ar Fap I (ward Beddau)—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Pontypridd;
(b) yn ffurfio rhan o ward y Graig yng nghymuned Pontypridd; ac
(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol y Graig.

Beddau and Graig – change to community areas and consequential change to electoral divisions

10. The part of the community of Llantrisant shown hatched on Map I (Beddau ward)—

- (a) is transferred to the community of Pontypridd;
(b) forms part of the Graig ward of the community of Pontypridd; and
(c) forms part of the electoral division of Graig.

Diddymu cymuned Aberaman a chreu cymunedau newydd – Gogledd Aberaman a De Aberaman

11.—(1) Mae cymuned bresennol Aberaman wedi ei diddymu.

Abolition of the community of Aberaman and creation of new communities – Aberaman North and Aberaman South

11.—(1) The existing community of Aberaman is abolished.

(2) Mae dwy gymuned newydd o'r enw Gogledd Aberaman a De Aberaman wedi eu creu, a ddangosir ar Fap J fel yr ardaloedd wedi eu marcio "Gogledd Aberaman" a "De Aberaman" yn y drefn honno.

Diddymu cymuned Aberdâr a chreu cymunedau newydd – Dwyrain Aberdâr a Gorllewin Aberdâr

12.—(1) Mae cymuned bresennol Aberdâr wedi ei diddymu.

(2) Mae dwy gymuned newydd o'r enw Dwyrain Aberdâr a Gorllewin Aberdâr wedi eu creu, a ddangosir ar Fap K fel yr ardaloedd wedi eu marcio "Dwyrain Aberdâr" a "Gorllewin Aberdâr" yn y drefn honno.

Diddymu cymuned Aberpennar a chreu cymunedau newydd – Dwyrain Aberpennar a Gorllewin Aberpennar

13.—(1) Mae cymuned bresennol Aberpennar wedi ei diddymu.

(2) Mae dwy gymuned newydd o'r enw Dwyrain Aberpennar a Gorllewin Aberpennar wedi eu creu, a ddangosir ar Fap L fel yr ardaloedd wedi eu marcio "Dwyrain Aberpennar" a "Gorllewin Aberpennar" yn y drefn honno.

Cwmbach a De Aberaman – newidiadau i ardaloedd cymunedol

14. Mae'r rhan o gymuned newydd De Aberaman a ddangosir â chroeslinellau ar Fap M—

- (a) wedi ei throsglwyddo i ffurfio rhan o gymuned Cwmbach; a
- (b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Cwmbach.

Cwmbach a Dwyrain Aberpennar – newidiadau i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

15. Mae'r rhan o gymuned Cwmbach a ddangosir â chroeslinellau ar Fap N—

- (a) wedi ei throsglwyddo i ffurfio rhan o gymuned newydd Dwyrain Aberpennar; a
- (b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Dwyrain Aberpennar.

Llanilltud Faerdref – newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

16. Yng nghymuned Llanilltud Faerdref—

- (a) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Ton-Teg yw 3;

(2) There are constituted two new communities named Aberaman North and Aberaman South, shown on Map J as the areas marked "Aberaman North" and "Aberaman South" respectively.

Abolition of the community of Aberdare and creation of new communities – Aberdare East and Aberdare West

12.—(1) The existing community of Aberdare is abolished.

(2) There are constituted two new communities named Aberdare East and Aberdare West, shown on Map K as the areas marked "Aberdare East" and "Aberdare West" respectively.

Abolition of the community of Mountain Ash and creation of new communities – Mountain Ash East and Mountain Ash West

13.—(1) The existing community of Mountain Ash is abolished.

(2) There are constituted two new communities named Mountain Ash East and Mountain Ash West, shown on Map L as the areas marked "Mountain Ash East" and "Mountain Ash West" respectively.

Cwmbach and Aberaman South – changes to community areas

14. The part of the new community of Aberaman South shown hatched on Map M—

- (a) is transferred to form part of the community of Cwmbach; and
- (b) forms part of the electoral division of Cwmbach.

Cwmbach and Mountain Ash East – changes to community areas and consequential changes to electoral arrangements

15. The part of the community of Cwmbach shown hatched on Map N—

- (a) is transferred to form part of the new community of Mountain Ash East; and
- (b) forms part of the electoral division of Mountain Ash East.

Llantwit Fardre – consequential changes to electoral arrangements

16. In the community of Llantwit Fardre—

- (a) the number of councillors to be elected for the Ton-Teg ward is 3;

- (b) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Pentre'r Eglwys yw 4;
- (c) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Llanilltud Faerdref yw 4; a
- (d) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Efail Isaf yw 1.

- (b) the number of councillors to be elected for the Church Village ward is 4;
- (c) the number of councillors to be elected for the Llantwit Fardre ward is 4; and
- (d) the number of councillors to be elected for the Efail Isaf ward is 1.

Llantrisant – newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

17. Yng nghymuned Llantrisant—

- (a) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Tyn-y-Nant yw 3;
- (b) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Beddau yw 4;
- (c) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Tref Llantrisant yw 4; a
- (d) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Tonysguboriau yw 3.

Llantrisant – consequential changes to electoral arrangements

17. In the community of Llantrisant—

- (a) the number of councillors to be elected for the Tyn-y-Nant ward is 3;
- (b) the number of councillors to be elected for the Beddau ward is 4;
- (c) the number of councillors to be elected for the Llantrisant Town ward is 4; and
- (d) the number of councillors to be elected for the Talbot Green ward is 3.

Pontypridd – newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

18. Yng nghymuned Pontypridd—

- (a) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Glyncoch yw 2;
- (b) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Cilfynydd yw 2;
- (c) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Rhondda yw 4;
- (d) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Pontypridd yw 2;
- (e) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Trallwng yw 3;
- (f) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward llan yw 1;
- (g) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Canol Rhydfelen yw 2;
- (h) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Rhydfelen Isaf yw 1;
- (i) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward y Ddraenen Wen yw 2;
- (j) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Trefforest yw 2; a
- (k) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward y Graig yw 2.

Pontypridd – consequential changes to electoral arrangements

18. In the community of Pontypridd—

- (a) the number of councillors to be elected for the Glyncoch ward is 2;
- (b) the number of councillors to be elected for the Cilfynydd ward is 2;
- (c) the number of councillors to be elected for the Rhondda ward is 4;
- (d) the number of councillors to be elected for the Pontypridd ward is 2;
- (e) the number of councillors to be elected for the Trallwng ward is 3;
- (f) the number of councillors to be elected for the llan ward is 1;
- (g) the number of councillors to be elected for the Rhydfelen Central ward is 2;
- (h) the number of councillors to be elected for the Rhydfelen Lower ward is 1;
- (i) the number of councillors to be elected for the Hawthorn ward is 2;
- (j) the number of councillors to be elected for the Trefforest ward is 2; and
- (k) the number of councillors to be elected for the Graig ward is 2.

Mark Drakeford

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth
Leol, un o Weinidogion Cymru
25 Tachwedd 2016

Cabinet Secretary for Finance and Local
Government, one of the Welsh Ministers
25 November 2016

©[©] Hawlfraint y Goron 2016

© Crown copyright 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.


Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

£6.00

W201611288 12/2016 19585

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2016/1156>

ISBN 978-0-348-20044-7



9 780348 200447